COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD O BELL - TRWY MICROSOFT TEAMS DYDD MERCHER, 9 MAWRTH 2022, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| NA Burnett | MC Clarke | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | P Davies | SK Dendy | DK Edwards |
| J Gebbie | RM Granville | CA Green | DG Howells |
| M Hughes | A Hussain | RM James | B Jones |
| M Jones | MJ Kearn | DRW Lewis | JE Lewis |
| JR McCarthy | D Patel | RL Penhale-Thomas | AA Pucella |
| JC Radcliffe | B Sedgebeer | RMI Shaw | CE Smith |
| SG Smith | RME Stirman | G Thomas | T Thomas |
| E Venables | MC Voisey | LM Walters | KJ Watts |
| DBF White | A Williams | AJ Williams | HM Williams |
| JE Williams | RE Young | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

PA Davies, JH Tildesley MBE a/ac CA Webster

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Dros dro |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

645. DATGAN BUDDIANT

Ar wahân i'r Swyddog a oedd yn cyflwyno'r adroddiad a'r Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn cefnogi'r cyfarfod, datganodd bob swyddog fuddiant rhagfarnus yn eitem 7 ar yr Agenda, gan adael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem honno'n cael ei hystyried.

646. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2022, yn gywir.

647. CYFLWYNIAD I'R CYNGOR GAN GYNRYCHIOLWYR GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, a gyflwynai’r cynrychiolwyr Huw Jakeway a Chris Barton o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru i’r Cyngor, iddynt roi diweddariad ar waith y Gwasanaeth, ac ati.

Yn gyntaf, rhoddodd Mr Jakeway gyflwyniad byr i Wasanaeth Tân De Cymru, cyn trosglwyddo'r awenau i Mr. Barton roi rhywfaint o'r cyd-destun ariannol.

Dywedodd fod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn gwasanaethu'r Bwrdeistrefi Sirol canlynol. Mae nifer y gorsafoedd/sefydliadau tân ym mhob un o'r ardaloedd wedi'i nodi mewn cromfachau:-

- Pen-y-bont ar Ogwr (8)
- Rhondda Cynon Taf (9)
- Bro Morgannwg (4)
- Caerffili (5)
- Merthyr Tudful (2)
- Blaenau Gwent (4)
- Torfaen (4)
- Trefynwy (5)
- Caerdydd (4)
- Casnewydd (3)

Cadarnhaodd fod pob un o'r Awdurdodau cyfansoddol wedi ymrwymo cyllideb tuag at weithredu Gwasanaeth Tân De Cymru a oedd yn gymesur â phoblogaeth pob ardal. Yn achos Pen-y-bont ar Ogwr, roedd hyn i gyfrif am £7.5m (9.5%) o gyfanswm y gyllideb o £79m. Roedd y Gwasanaeth hefyd yn cael ei gefnogi'n ariannol drwy ddyraniad grant penodol. Esboniodd fod 80% o'r gyllideb hon yn mynd tuag at gyflogwyr ac yn cynnwys adnoddau ar gyfer agweddau fel Trafnidiaeth, Cyflenwadau, Hyfforddiant, Eiddo, Pensiynau a Chyllid Cyfalaf.

Roedd cyllideb refeniw'r Gwasanaeth wedi cynyddu dros y 10 mlynedd diwethaf, er bod hyn yn dal yn llawer is na chwyddiant. Roedd Gwasanaeth Tân De Cymru yn un o 3 Awdurdod Tân yng Nghymru. Y ddau wasanaeth arall oedd Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru, yr oedd y naill wasanaeth a'r llall yn derbyn cyllideb fwy na rhanbarth De Cymru.

O ran pwysau cyllidebol eleni, roedd codiad cyflog o 1.5% wedi'i ddyfarnu, ond roedd rhai risgiau'n gysylltiedig â hynny oherwydd yr RPI cyfredol. Roedd yr holl gostau chwyddiant eraill wedi'u hamsugno o fewn Cyllidebau presennol y Gwasanaethau gan gynnwys ei Gronfeydd Wrth Gefn. Er bod tanwariant wedi'i ragweld o fewn y Gwasanaeth ar hyn o bryd, byddai'r arian hwnnw a oedd dros ben yn cael ei osod yn erbyn unrhyw risgiau'n gysylltiedig â chwyddiant cyflogau. Rhagdybiwyd y byddai cyllid grant oddi wrth Lywodraeth Cymru yn parhau.

Aeth Mr Jakeaway wedyn yn ei flaen i gyfeirio at broblemau gweithredol Gwasanaeth Tân De Cymru, gan ddweud fod yr holl fuddsoddiad a wnaed wedi mynd tuag at gadw cymunedau'n ddiogel.

Roedd atal yn cael ei ystyried yn eithriadol o bwysig, ac roedd swm sylweddol o arian yn cael ei ymrwymo i addysgu'r cyhoedd am agweddau ar ddiogelwch tân.

Roedd 20,000 o wiriadau'n cael eu cynnal ar gartrefi'n flynyddol, gyda chymorth cwmnïau cyfleustodau, ac asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gartrefi'r rhai y tybiwyd eu bod yn fwyaf agored i niwed, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel. Cynhaliwyd gwiriadau'n gysylltiedig â diogelwch tân, yn ogystal â gwiriadau eraill ar gartrefi i atal problemau fel masnachu mewn pobl a sefyllfaoedd a oedd yn cynnwys cam-drin rhywiol neu ddomestig. Cafodd cartrefi'r bobl sy'n fwyaf agored i niwed hefyd eu gwirio, i sicrhau nad oedd unrhyw beth ynddynt a allai waethygu unrhyw ddamweiniau, ee, baglu a chwympo.

Gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru, cafodd synwyryddion mwg hefyd eu gosod mewn cartrefi lle'r oedd preswylwyr yn derbyn cyngor ynghylch sut i atal troseddwyr.

Bu Gwasanaeth Tân De Cymru hefyd yn cydweithio â'r ysgolion ym maes dysgu a datblygu er mwyn addysgu pobl ifanc, yn rhan o Rhaglen(ni) Ysgolion y cwricwlwm.

Rhoddwyd cyngor ynghylch agweddau fel diogelwch tân a sut i fod yn ddefnyddiwr ffordd cyfrifol. Bu'r Heddlu a rhanddeiliaid allweddol eraill yn helpu i gefnogi'r mentrau hyn.

Roedd nifer o ganghennau Cadetiaid Tân hefyd yn cael eu cynnal ar draws rhanbarthau Awdurdod Tân De Cymru.

Mynegodd ddiolch i ochr Weithredol y gwasanaeth a oedd yn aml yn gweithio o'r golwg o gymharu â'r Diffoddwyr Tân.

Yr Ystafell Reoli oedd y man lle byddai digwyddiadau'n cael eu hadrodd yn gyntaf, ac roedd y ganolfan honno wedi'i chysylltu â gwasanaethau brys eraill fel yr Heddlu ac Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Roedd am i bawb wybod fod 80% o'r tanau a ddiffoddir gan yr Awdurdod yn danau wedi'u cynnau'n fwriadol. Gan hynny, roedd hi'n eithriadol o bwysig addysgu'r cyhoedd a dweud wrthynt fod hyn yn anghyfreithlon ac yn drosedd.

Roedd Awdurdod Tân De Cymru hefyd yn rhoi cymorth ar gyfer digwyddiadau llifogydd ac er mwyn achub o ddyfroedd mewndirol ac achub anifeiliaid. Roedd y Gwasanaeth hefyd wedi canolbwyntio ar adeiladau uchel a diogelwch y preswylwyr ynddynt (yng Nghaerdydd a Chasnewydd yn bennaf). Roedd gan rai o'r rhain ddiffygion fel cladin nad oedd yn bodloni safonau ac a oedd yn achosi risg barhaus.

Wrth gymharu data ac ystadegau o 2003 a 2021, roedd y Gwasanaeth wedi gwella ym mhob maes perfformiad allweddol, ar wahân i fynychu Galwadau Gwasanaeth Arbennig a Galwadau Gwasanaeth Arbennig dosbarth ‘eraill’. Roedd y naill wedi cynyddu 9% a'r llall wedi cynyddu 37%. Roedd y rhain yn achosion lle'r oedd Gwasanaeth Tân De Cymru wedi cynorthwyo asiantaethau eraill i achub, ee y Gwasanaeth Ambiwlans a galwadau eraill lle gofynnwyd am gymorth meddygol.

Yn hytrach na thrafod holl sleidiau'r cyflwyniad a oedd wedi cael eu rhannu â'r Aelodau, er mwyn derbyn unrhyw gwestiynau, daeth â'r cyflwyniad i ben drwy gymeradwyo ymdrechion a gwaith cyflogeion y Gwasanaeth drwy gydol y pandemig. Roeddent wedi parhau i weithio ar y rheng flaen, yn eu peryglu eu hunain er mwyn cefnogi eraill mewn amgylchedd ansicr iawn a barodd bron i 2 flynedd. Roedd yr holl Orsafoedd Tân ym mhob un o'r deg rhanbarth wedi bod yn weithredol drwy gydol cyfnod Covid-19. Ychwanegodd Mr Jakeaway fod y staff hefyd wedi cefnogi gwasanaethau brys ac asiantaethau allweddol eraill o fewn y cyfnod, heb sôn am helpu i gefnogi rhaglen frechu Covid-19.

| | |
|---|---|
| <u>PENDERFYNWYD:</u> | Nodi'r adroddiad a'r cyflwyniad gan Wasanaeth Tân De Cymru. |

648. <u>DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:</u>

<u>Y Maer</u>

Dros yr wythnosau diwethaf rwyf wedi bod yn ymweld â nifer o unigolion a grwpiau i gyflwyno Gwobrau Dinasyddiaeth y Maer iddynt ac mae hi wedi bod yn bleser cael cwrdd â nhw i gyd. Mae yna nifer ar ôl i'w cyflwyno o hyd a bydd pob un wedi'i chyflwyno o fewn tua wythnos.

Ddydd Llun nesaf byddaf yn agor Cofeb y Glowyr yn Nant-y-moel yn swyddogol. Mae'r gofeb wrth ymyl hen safle Canolfan Berwyn sydd bellach wedi'i dymchwel, ac rwy'n siŵr mai dyma fydd un o uchafbwyntiau fy mlwyddyn fel Maer. Ar ôl cael fy magu yn Nant-y-moel bydd hi'n anrhydedd dychwelyd i nodi'r digwyddiad arbennig hwn a thalu teyrnged

i'r llu o lowyr (fy nhad yn eu plith) a dreuliai oriau lawer bob dydd o dan y ddaear yn y tywyllwch, ond a wnaeth gyfraniad gwirioneddol at adeiladu'r cwm.

Mae hi wedi bod yn brofiad ac yn bleser Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf, hyd yn oed os oedd hi'n siom braidd nad oedd modd inni ond dychwelyd i siambr y Cyngor drwy drefniant hybrid. Fodd bynnag, gobeithio y bydd hyn yn newid yn fuan. Hoffwn ddiolch ichi i gyd am beidio â bod yn rhy galed arnaf yn y cyfarfodydd hyn, ond dim ond megis dechrau ar gyfarfod heddiw yr ydym ni felly pwy ŵyr beth wnaiff ddigwydd.

Gan mai dyma fydd cyfarfod olaf y Cyngor cyn yr etholiad, meddyliais y byddai'n syniad gofyn i chi i gyd unwaith eto wneud cyfraniad at y ddau grŵp yr wyf yn codi arian ar eu cyfer eleni - Lads & Dads a Chanolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr. Byddaf yn cymryd rhan yn her 3 Chopa Cymru ddydd Sadwrn 2 Ebrill, ynghyd â 21 o bobl eraill, ac rydym ni i gyd yn gobeithio codi arian i'r ddau grŵp hyn. Bydd y digwyddiad yn dechrau tua 4.00am ar y dydd Sadwrn ac mae'n debygol y byddwn yn cwblhau'r digwyddiad ar yr Wyddfa yn y tywyllwch, ond gan wneud y cyfan o fewn 24 awr. A fyddech cystal â gwneud cyfraniad drwy Wefan CBSP ar dudalen y Maer os gallwch chi, a llawer o ddiolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

I gloi, efallai fod yr Aelodau'n ymwybodol bod cyfarfodydd canlynol y Pwyllgor wedi'u canslo gan y bydd y cyfnod cyn yr etholiad yn dechrau ar 21 Mawrth 2022:-

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd – 24 Mawrth
Pwyllgor Safonau – 29 Mawrth
Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio - 31 Mawrth

Bydd cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei gynnal ynghynt ar 15 Mawrth am 2pm, gyda chytundeb y Cadeirydd. Caniateir cynnal Pwyllgorau Rheoleiddio yn y cyfnod cyn yr etholiad.

Bydd staff y Gwasanaethau Democrataidd yn tynnu'r digwyddiadau uchod o galendrau'r Aelodau a'r Swyddogion yn unol â hyn. Mae dyddiad diwygiedig y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio eisoes wedi'i osod yng nghalendrau Aelodau/Swyddogion

Y Dirprwy Arweinydd

Efallai yr hoffai'r Aelodau rybuddio eu hetholwyr ein bod yn derbyn galwadau unwaith eto gan ddeiliaid tai pryderus sydd wedi cael eu targedu gan sgamwyr.

Mae'r troseddwyr hyn yn anfon negeseuon e-bost a galwadau ffôn uniongyrchol i ddweud wrth bobl, yn gelwyddog, fod ganddynt hawl i dderbyn ad-daliadau helaeth o'u treth gyngor.

Mae'r sgamwyr wedyn yn trefnu i dalu'r arian yn ôl i'r preswylwyr yn gyfnewid am ffi o tua £140.

Sgam yw hwn, a chynghorir deiliaid tai i fod ar eu gwyliadwraeth.

Cewch ragor o wybodaeth ynghylch y modd y mae'r cyngor yn ymdrin â thaliadau ac ad-daliadau'r dreth gyngor ar y wefan gorfforaethol, neu drwy Fy Nghyfrif.

Yr Aelod Cabinet - Cymunedau

Mae prosiect ar y gweill yn Ne Corneli a fydd yn siŵr o fod o ddiddordeb i'r aelodau, gan mai prosiect ydyw sy'n anelu i greu'r pentref carbon isel cyntaf yng Nghymru.

Mae'r prosiect, a lansiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar y cyd â Challoch Energy, NuVision Energy Wales Ltd, Passive UK a Llywodraeth Cymru, yn cynnwys menter arloesol sy'n anelu i rannu ynni gwyrdd rhwng cartrefi lleol.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy osod cyfuniad o baneli solar, systemau awyru solar a batris ynni ar dai, gan gysylltu'r cyfan â'i gilydd fel bo modd dosbarthu ynni drwy'r holl gymuned.

Mae'r cynllun yn un o lawer o brosiectau y mae'r cyngor yn gweithio arnynt yn rhan o'n strategaeth datgarboneiddio gyffredinol, Pen-y-bont 2030.

Os bydd yr arbrawf yn parhau i greu canlyniadau cadarnhaol, gallem fynd ati'n fuan i roi'r dechnoleg ar waith mewn cymunedau eraill o fewn y bwrdeistref sirol.

<u>Yr Aelod Cabinet - Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar</u>

Gan mai dyma fydd cyfarfod olaf y Cyngor llawn nes ar ôl etholiadau mis Mai, rwyf am hysbysu'r aelodau y byddwn yn agor canolfan newydd yn fuan lle bydd ein timau cymorth cynnar a gwasanaethau cymdeithasol plant o Hyb y Dwyrain wedi'u lleoli.

Cafodd ein hybiau eu creu yn ôl yn 2015, pan sefydlwyd tri thîm amlddisgyblaeth a fyddai'n gallu rhannu sgiliau ac adnoddau i ddarparu cymorth mwy effeithiol i blant lleol a'u teuluoedd.

Roedd Coleg Cymunedol y Dderwen yn gartref addas i dîm Hyn y Gogledd, a sefydlwyd tîm Hyb y Gorllewin yng Nghanolfan Bywyd y Pîl.

Bu'r Swyddfeydd Dinesig yn ganolfan dros dro i dîm Hyb y Dwyrain tra'r oeddem yn chwilio am ofod priodol iddynt.

Yn sgil ymdrechion ein partneriaid, ac yn enwedig pennaeth, staff, disgyblion a chorff llywodraethu Ysgol Gyfun Brynteg, mae adeilad unllawr newydd sengl wedi cael ei ddylunio a'i adeiladu ar dir yr ysgol. Mae'n barod i groesawu nid yn unig aelodau'r tîm cymorth cynnar, ond hefyd ein tîm lleol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol plant hefyd.

Mae’r ddau dîm yn gwneud gwaith rhagorol i’r gymuned, a bydd yr adeilad newydd yn dod ag arbenigwyr ym meysydd cymorth teuluoedd, rhianta ac ymgysylltu, llesiant addysgol, seicoleg a chwnsela, cymorth a chyswllt cymunedol yr heddlu, diogelu, iechyd a mwy ynghyd.

Drwy gydleoli'r gwasanaethau gyda'i gilydd, ceir cyfleoedd gwych i'n timau diogelu statudol gydweithio mwy â'i gilydd.

Bydd Hyb y Dwyrain yn gyfleuster newydd rhagorol a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl leol, felly da iawn bawb a gyfrannodd at wneud hyn yn bosibl.

<u>Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol</u>

Gall pobl ifanc 16-18 oed sy'n byw yng nghymoedd Ogwr, Galw a Llynfi fanteisio ar 8 wythnos o aelodaeth gym am ddim yn rhan o fenter Gaeaf Llawn Lles.

Mae'r rhaglen wedi'i chyllido gan Lywodraeth Cymru a'i darparu gan Halo Leisure a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a'i nod yw annog pobl ifanc i fyw bywydau iachach a mwy egnïol.

Am ragor o wybodaeth gallwch fynd i wefan Halo neu ymweld ag un o'r lleoliadau sy'n cymryd rhan cyn y dyddiad cau, sef 31 Mawrth 2022.

Yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio

Rwy’n siŵr y bydd yr aelodau’n falch o nodi bod Coleg Pen-y-bont ar Ogwr bellach wedi cyflwyno cynnig cynllunio cyn ymgeisio yn ffurfiol ar gyfer sefydlu campws newydd, gwerth miliynau o bunnoedd, yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Fel y gwyddoch, mae'r cynnig yn rhan o Uwchgynllun Adfywio'r Cyngor, sy'n nodi cyfres o brosiectau uchelgeisiol a chyflawnadwy dros y 10 mlynedd nesaf a fydd yn cefnogi twf economaidd yn y dyfodol ac yn sicrhau mwy o fuddion a chyfleoedd.

Mae’r coleg am ddatblygu campws dysgu a sgiliau cwbl newydd yn Cheapside gan ddefnyddio'r tir lle mae gorsaf heddlu canol y dref ar hyn o bryd. Mae'r cyngor eisoes wedi prynu'r orsaf i'r diben hwn, ynghyd â'r hen faes parcio aml-lawr gerllaw y bu'n rhaid ei gau ym mis Ebrill 2021 oherwydd diffygion strwythurol difrifol.

Wrth i weithgarwch yr heddlu ar y safle symud i eiddo arall yng nghanol y dref, a'u prif swyddfeydd ar Heol y Bont-faen, rydym yn gweithio'n agos gyda'r coleg gan fod addewid i'r campws dysgu a sgiliau newydd hwn weithredu fel prosiect angori o fewn y cynlluniau adfywio, a gwneud tref Pen-y-bont ar Ogwr yn gyrchfan unigryw ar gyfer cyfleoedd dysgu a hyfforddi o'r radd flaenaf.

Gan fanteisio ar gynlluniau cyfochrog i ddatblygu cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus gwell o fewn canol y dref, a fydd yn ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio ei gyfleusterau, bwriedir i'r campws newydd gefnogi busnesau lleol a chynhyrchu buddsoddiadau newydd drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr yn sylweddol.

Yn ei hanfod, mae'r cynnig yn ceisio dod ag addysg uwch ac addysg bellach i mewn i ganol y dref, lle bydd yn nes at ganolfannau manwerthu, hamdden a thrafnidiaeth, ac mae'n gonglfaen i'n strategaeth adfywio sy'n addo sicrhau newid cadarnhaol hirdymor.

Uchelgais a gweledigaeth yr uwch gynllun yw sicrhau bod Pen-y-bont ar Ogwr yn Dref Sirol wirioneddol. Mae'r agwedd hon ar yr uwchgynllun yn cadarnhau bod Pen-y-bont ar Ogwr yn lle ar gyfer addysg dechnegol, yn lle ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes ac, i bob pwrpas, yn dref prifysgol.

Y Prif Weithredwr

Rwy'n siŵr y bydd yr aelodau’n ymwybodol iawn mai hwn yw cyfarfod olaf y Cyngor llawn cyn i’r etholiadau llywodraeth leol gael eu cynnal ym mis Mai.

Fel Prif Weithredwr, rwyf bob amser wedi gwerthfawrogi’r perthnasoedd gwaith adeiladol sydd gennym yma yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a’r parch a geir rhwng swyddogion ac aelodau.

Gwn fod rhai ohonoch eisoes wedi penderfynu peidio sefyll yn yr etholiadau sydd ar ddod, ac oherwydd natur gwleidyddiaeth, efallai y byddwn hefyd yn gweld mwy o wynebau newydd y tro nesaf inni gwrdd yn y siambr hon.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch ichi ar ran yr holl swyddogion am eich ymdrechion, eich ymrwymiad a'ch ymroddiad tuag at y cymunedau yr ydych yn eu cynrychioli.

Hoffwn hefyd ddymuno pob lwc i'r Aelodau a phob dymuniad da i'r dyfodol.

649. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD

Gwn fod yr holl aelodau wedi'u tristau a'u syfrdanu gan ymosodiad Rwsia ar Wcrain, sy'n achosi argyfwng dyngarol a welir yn datblygu bob dydd, yn fyw ar ein sgriniau teledu.

Mae pobl Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cyngor hwn yn parhau i sefyll ochr yn ochr â phobl Wcrain wrth iddynt frwydro'n ddewr yn erbyn lluoedd arfog Putin.

Fel ardal sydd eisoes yn gartref i wladolion Rwsia ac Wcrain, rydym yn cydsefyll â'n cymdogion o Wcrain, ac ni allwn ddychmygu sut maent yn teimlo nac yn ymdopi, heb wybod a yw eu hanwyliaid yn Wcrain yn ddiogel, ac a fyddant yn goroesi'r bomiau a'r sieliau.

Rydym hefyd yn gwerthfawrogi a chefnogi ein preswylwyr o Rwsia sydd, fel ni, wedi condemnio'r ymosodiadau anghyfreithlon a direswm a orchmynnwyd gan yr Arlywydd Putin, ac sy'n parhau i gydsefyll â Wcrain.

Yn union fel y mae Cymru’n genedl noddfa, mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr hithau'n ardal sy'n cynnig noddfa, ac mae hi wedi bod yn galonogol gweld ein cymunedau lleol yn dod at ei gilydd i gynnig eu cefnogaeth i bobl Wcrain gyda’u negeseuon, eu gweddïau a'r arian, y meddyginiaethau a'r hanfodion eraill y maent wedi'u cyfrannu.

Cynhaliwyd gwylnos gyhoeddus emosiynol yn Dunraven Place yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr ddydd Gwener diwethaf a chafwyd cefnogaeth dda iawn gyda chyfraniadau teimladwy iawn gan bobl o Wcrain sy'n byw yng Nghymru. Bydd ail wylnos yn cael ei chynnal yn sgwâr marchnad Maesteg ddydd Sadwrn yma 12 Mawrth am 10.00am.

Mae nifer o gymunedau lleol yn trefnu eu casgliadau eu hunain ar gyfer bwyd, meddyginiaethau a hanfodion eraill, ac mae Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn derbyn nwyddau ymolchi a hylendid personol ac eitemau meddygol yn ei hyb cymunedol.

Fel arall, a dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o helpu, gall pobl gyfrannu arian i'r Disasters Emergency Committee fel bo modd prynu eitemau i Wcrain heb orfod eu cludo o'r DU. Mae ein pobl wedi dangos eu haelioni, eu caredigrwydd a’u parodrwydd i weithredu, gan gynnig eu cartrefi eu hunain hyd yn oed i ffoaduriaid sy'n ffoi rhag erchylltra rhyfel. Mae angen sicrhau'r un ymrwymiad gan lywodraeth y DU ag ymrwymiad y bobl.

Yr wythnos diwethaf cyfarfu holl Arweinwyr Cynghorau Cymru drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru â Gweinidogion Llywodraeth Cymru i drafod ein hymateb ar y cyd i’r argyfwng dyngarol sy'n tyfu bob dydd o fewn y wlad.Cadarnhaodd yr arweinwyr fod pob cyngor lleol yng Nghymru yn barod i wneud beth bynnag a oedd o fewn eu gallu i helpu’r rhai sy’n ffoi rhag y gwrthdaro yn Wcrain, a'u bod yn gwneud paratoadau. Fodd bynnag mae ein gallu i baratoi'n gyfyngedig, gan nad ydym wedi derbyn y wybodaeth sydd ei hangen arnom ar frys gan Lywodraeth y DU.

Dros y penwythnos ysgrifennodd ein Arweinydd CLILC, Andrew Morgan, at Brif Weinidog y DU ynghylch y rhyfel, a’r wythnos hon fel Llywydd, ynghyd â holl Arweinwyr y Grwpiau mewn ymateb trawsbleidiol unfrydol, galwodd eto ar i Lywodraeth y DU fod yn llawer mwy eglur a gweithredu'n llawer cynt er mwyn ymateb i'r argyfwng ffoaduriaid.Rydym wedi galw am ddileu’r cynllun fisa cyfyngol a biwrocrataidd presennol ar unwaith er mwyn galluogi’r bobl hynny sy’n ceisio dianc o’r rhyfel yn yr Wcrain i ddod i Gymru a chael hyd i le diogel mor hawdd ac mor gyflym â phosibl.

Mae ein cymdogion Ewropeaidd wedi symud yn gyflym iawn, gan symleiddio prosesau a rheolau ac agor eu drysau, agor eu ffiniau, agor eu cartrefi i ffoaduriaid Wcrain. Dylai Llywodraeth y DU wneud yr un peth a gwneud hynny ar unwaith. Byddwn yn barod pan fydd hynny’n digwydd.

Wrth inni nesáu at ddwy flynedd ers dechrau'r pandemig coronafeirws yng Nghymru, mae’r Prif Weinidog Mark Drakeford wedi cyhoeddi y ceir newidiadau mawr i gyfyngiadau coronafeirws yn ddiweddarach y mis hwn.

Mae'r newidiadau'n cael eu cyflwyno yn sgil cyfraddau brechu uchel a lefelau heintio isel, a byddant yn golygu na fydd angen i drigolion lleol wisgo gorchuddion wyneb yn y rhan fwyaf o lefydd o 28 Mawrth, na hunanynysu ychwaith.

Tra bydd busnesau a chyflogwyr yn parhau i fod yn ddarostyngedig i gyfreithiau iechyd a diogelwch, ni fydd bellach yn ofynnol yn gyfreithiol iddynt gynnal asesiadau risg penodol ar gyfer Covid, na chymryd camau ataliol rhesymol.

Bydd ysgolion yn parhau i weithredu drwy ddefnyddio'r fframwaith cenedlaethol ac yn gallu pennu eu gweithdrefnau eu hunain ar gyfer defnyddio gorchuddion wyneb mewn ardaloedd cyffredin dan do.

Bydd y defnydd arferol o brofion PCR ar gyfer y cyhoedd yn dod i ben, a bydd safleoedd profi symudol cau'n raddol yn y cyfnod cyn hynny.

Bydd profion yn parhau i gael eu cynnal ar bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty, ar breswylwyr cartrefi gofal, carcharorion â symptomau a staff iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd profion llif unffordd hefyd yn parhau i fod ar gael i unrhyw un â symptomau, a byddant ar gael yn rhad ac am ddim.

Mae’r newidiadau hyn yn cynrychioli’r ymdrechion y mae pobl wedi’u gwneud i ddod at ei gilydd fel un gymuned a gwneud popeth o fewn ein gallu i atal lledaeniad y coronafeirws.

Er nad yw hyn yn golygu bod y pandemig drosodd, mae'n ddychweliad i normalrwydd sy'n cael ei groesawu.

Yn olaf, rydym wedi derbyn peth newyddion cadarnhaol yr hoffwn eu rhannu â’r aelodau.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr bellach wedi’i gydnabod yn swyddogol fel cyflogwr ag achrediad Cyflog Byw Gwirioneddol gan y Living Wage Foundation. Sefydliad yw'r Living Wage Foundation sy'n defnyddio ffactorau ehangach yn gysylltiedig â chostau byw i gyfrifo cyfraddau cyflog fesul awr mwy realistig i bobl 23 oed a throsodd.

Nod y Living Wage Foundation yw rhoi meincnod gwirfoddol i gyflogwyr, fel bod staff yn gallu ennill y cyflog y gallant fyw arno. Mae'r sefydliad yn amcangyfrif bod bron i un o bob pump o weithwyr yng Nghymru ar hyn o bryd yn ennill llai nag sydd ei angen i gael dau ben llinyn ynghyd, a bod tua 223,000 o swyddi'n talu llai na'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Mae cyflogwyr sy'n cytuno i'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn cytuno i dalu isafswm o £9.90 yr awr i'w staff, yn hytrach na'r gyfradd genedlaethol o £8.91.

Er bod dros ddwy flynedd bellach ers i'r cyngor hwn ymrwymo'n wreiddiol i dalu Cyflog Byw Gwirioneddol, mae ennill achrediad swyddogol yn cyfleu'n glir wrth ddarpar gyflogeion ein bod yn gyflogwr cyfrifol.

Daw'r achrediad yn dilyn llawer iawn o waith caled a gyflawnwyd ochr yn ochr â Cynnal Cymru.

Mae’n adlewyrchu ein dymuniad i wella telerau ac amodau, ac i sicrhau bod staff yn cael eu trin yn briodol er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus pwysig, a hynny'n aml i'r aelodau sydd yn fwyaf agored i niwed yn y gymuned.

Drwy arwain drwy esiampl, rydym yn annog ein contractwyr a'n cyflenwyr hwythau i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, yn unol â'n hymrwymiadau yn y Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

Rwy’n siŵr y bydd yr Aelodau am ymuno â mi i longyfarch pawb sydd wedi helpu’r cyngor i ennill yr achrediad hwn.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp – Cynghrair Annibynnol y byddai'n hoffi cysylltu'r Grŵp â geiriau'r Arweinydd wrth ddarparu ein cefnogaeth unedig mewn undod â phobl Wcráin wrth iddyn nhw ddioddef y cyrch llym a di-sail hwn o Rwsia ar eu cenedl ddemocrataidd annibynnol.

Rhaid inni gondemnio gweithredoedd yr Arlywydd Putin yn y termau cryfaf ond hefyd gefnogi dewrder y bobl hynny o Rwsia sydd wedi cael y gwedduster moesol i siarad yn erbyn ei gieidd-dra.

Hoffwn hefyd longyfarch yr holl arweinwyr cymunedol gan gynnwys y Cynghorydd David White ac eraill am eu gwaith yn trefnu'r wylnos a gafodd ei chynnal yr wythnos diwethaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Hoffem ddweud diolch i’r holl drigolion hynny sydd wedi dangos cymaint o garedigrwydd haelionus wrth roi cyflenwadau hanfodol drwy'r Pwyllgor Argyfwng Trychinebau ac elusennau eraill fel y Groes Goch Brydeinig.

Mae'r golygfeydd o Wcráin wedi bod yn dorcalonnus sy'n gwneud i anwadalwch a biwrocratiaeth Llywodraeth y DU yng Nghalais hyd yn oed yn fwy cywilyddus wrth i ni weld ein ffiniau'n cau i bobl Wcráin pan maen nhw wir angen cefnogaeth tra bod pobl ddiniwed yn marw yn eu mamwlad.

Byddwn yn ein hannog fel "Un Cyngor" i orfodi Llywodraeth y DU i wneud pob ymdrech i lacio amodau mewnfudo ar unwaith ac <u>arwain</u> y byd (yn hytrach na’i ddilyn) pan ddaw'n fater o dderbyn ffoaduriaid o Wcráin sy'n ffoi rhag erledigaeth. Yn ogystal â hyn mae angen darparu mwy o gymorth dyngarol i'r bobl ddewr a herfeiddiol sy’n dangos penderfynoldeb anhygoel wrth iddyn nhw aros yn Wcráin.

Os bydd Llywodraeth y DU yn camu i'r adwy yn y pen draw, gallem weld miloedd lawer o ffoaduriaid yn glanio yng Nghaerdydd. Felly byddai'n ddefnyddiol pe byddai asesiad cywir yn cael ei wneud i faint o ffoaduriaid o Wcráin y gallwn eu cymryd a sicrhau ein bod ni ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn sefyllfa i arwain Cymru yn yr ymdrech hon. Mae gweision a swyddogion sifil y Swyddfa Dramor wedi dysgu llawer drwy ddatblygu sgiliau a rhwydweithiau i gefnogi dinasyddion Affganistan sydd wedi dod i Ben-y-bont ar Ogwr. Gall y gwersi hyn fod o fudd wrth gefnogi pobl Wcráin sy'n chwilio am ddiogelwch rhag erledigaeth. Rwyf hefyd yn cefnogi'r Arweinydd yn ei sicrwydd y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r unigolion o Wcráin sy’n byw yn y Fwrdeistref Sirol yn barod.

Rydym i gyd yn sefyll gydag Wcráin yn awr ac i aralleirio Anthem Genedlaethol Wcráin: "Nid yw Wcráin wedi marw eto, na'i gogoniant, na'i rhyddid. Bydd tynged yn gwenu arni unwaith eto. Bydd ei gelynion yn diflannu, fel y gwlith yn yr haul, a bydd hi hefyd yn rheoli, yn ei thir rhydd ei hun."

Dywedodd Arweinydd y Grŵp – Cynghrair Annibynnol y byddai'n hoffi cysylltu'r Grŵp â geiriau'r Arweinydd wrth ddarparu ein cefnogaeth unedig mewn undod â phobl Wcráin wrth iddyn nhw ddioddef y cyrch llym a di-sail hwn o Rwsia ar eu cenedl ddemocrataidd annibynnol.

Rhaid i ni gondemnio gweithredoedd yr Arlywydd Putin yn y termau cryfaf ond hefyd gefnogi dewrder y bobl hynny o Rwsia sydd wedi cael y gwedduster moesol i siarad yn erbyn ei gieidd-dra.

Hoffwn hefyd longyfarch yr holl arweinwyr cymunedol gan gynnwys y Cynghorydd David White ac eraill am eu gwaith yn trefnu'r wylnos a gafodd ei chynnal yr wythnos diwethaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Hoffem ddweud diolch i'r holl drigolion hynny sydd wedi dangos cymaint o garedigrwydd haelionus wrth roi cyflenwadau hanfodol drwy'r Pwyllgor Argyfwng Trychinebau ac elusennau eraill fel y Groes Goch Brydeinig.

Mae'r golygfeydd o Wcráin wedi bod yn dorcalonnus sy'n gwneud i anwadalwch a biwrocratiaeth Llywodraeth y DU yn Calais hyd yn oed yn fwy cywilyddus wrth i ni weld ein ffiniau'n cau i bobl Wcráin pan maen nhw wir angen cefnogaeth tra bod pobl ddiniwed yn marw yn eu mamwlad.

Byddwn yn ein hannog fel "Un Cyngor" i orfodi Llywodraeth y DU i wneud pob ymdrech i lacio amodau mewnfudo ar unwaith ac arwain y byd (yn hytrach na'i ddilyn) pan ddaw'n fater o dderbyn ffoaduriaid o Wcráin sy'n ffoi rhag erledigaeth. Yn ogystal â hyn mae angen darparu mwy o gymorth dyngarol i'r bobl ddewr a herfeiddiol sy'n dangos penderfynoldeb anhygoel wrth iddyn nhw aros yn Wcráin.

Os bydd Llywodraeth y DU yn camu i'r adwy yn y pen draw, gallem weld miloedd lawer o ffoaduriaid yn glanio yng Nghaerdydd. Felly byddai'n ddefnyddiol pe byddai asesiad cywir yn cael ei wneud i faint o ffoaduriaid o Wcráin y gallwn eu cymryd a sicrhau ein bod ni ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn sefyllfa i arwain Cymru yn yr ymdrech hon. Mae gweision a swyddogion sifil y Swyddfa Dramor wedi dysgu llawer drwy ddatblygu sgiliau a rhwydweithiau i gefnogi dinasyddion Afghanistan sydd wedi dod i Ben-y-bont ar Ogwr. Gall y gwersi hyn fod o fudd wrth gefnogi pobl Wcráin sy'n chwilio am ddiogelwch rhag erledigaeth. Rwyf hefyd yn cefnogi'r Arweinydd yn ei sicrwydd y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r unigolion o Wcráin sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol yn barod.

Rydym i gyd yn sefyll gydag Wcráin yn awr ac i aralleirio Anthem Genedlaethol Wcráin: "Nid yw Wcráin wedi marw eto, na'i gogoniant, na'i rhyddid. Bydd tynged yn gwenu arni unwaith eto. Bydd ei gelynion yn diflannu, fel y gwlith yn yr haul, a bydd hi hefyd yn rheoli, yn ei thir rhydd ei hun."

Dywedodd Arweinydd y Grŵp – Llynfi Independents ei fod am gysylltu ei hun ac aelodau o'i grŵp â sylwadau a theimladau'r Arweinydd.
Wrth wneud hynny, roeddem yn cydnabod undod pwrpas dwfn nid yn unig yma ym Mhen-y-bont ar Ogwr, neu yng Nghymru, neu'r DU, ond yn fyd-eang. Y diben hwnnw yw cefnogaeth ac undod â phobl Wcráin.

Cefais fy nghalonogi wrth fynychu'r wylnos yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr nos Wener lle'r oedd o leiaf ddau gant o bobl yn sefyll ochr yn ochr â'n cymdogion yn Wcráin. Rwy'n hyderus y bydd lefel debyg o gefnogaeth ym Maesteg fore Sadwrn nesaf.

O ryfel, mae'r gwaethaf o ddynoliaeth yn dod i'r amlwg, ond y gorau ohono hefyd. Rwyf wedi derbyn galwadau ffôn a negeseuon gan drigolion yn fy etholaeth dros y dyddiau diwethaf yn awyddus i gynnig lloches i ffoaduriaid o Wcráin yn eu cartrefi eu hunain. Mae hynny'n siarad cyfrolau am y cymunedau croesawgar yn ein Bwrdeistref Sirol.

Yn anffodus, mae'r teimlad hwnnw'n cwrdd â rhwystrau pan ydych yn ystyried yr ymateb truenus o annigonol a difaterwch Llywodraeth y DU. Rydym yn embaras i weddill Orllewin Ewrop lle mae ffoaduriaid yn cael eu croesawu â breichiau agored.

Ond gadewch ni beidio ag anghofio'r miliynau lawer o bobl yn Rwsia y mae'r rhyfel hwn yn groes i'w credoau. Bydd y canlyniadau economaidd yn arbennig o enbyd iddyn nhw.

Mae hanes yn edrych yn beryglus o agos at ailadrodd ei hun yn Nwyrain Ewrop. Ond wrth i ni obeithio a gweddïo am ymdrechion diplomataidd pellach a dad-ddwysáu'r rhyfel, rwy'n falch o fod yn aelod o Gyngor sy'n barod i weithredu er budd dynoliaeth a thosturi fel yr ydym wedi'i wneud gyda ffoaduriaid o Afghanistan a Syria yn ddiweddar.

Slava Ukraini.

Cafodd y teimladau uchod eu hadleisio gan arweinwyr grwpiau'r Ceidwadwyr a Phlaid Cymru.

650. DATGANIAD POLISI CYFLOGAU - 2022/2023

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad er mwyn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer Datganiad Polisi Tâl 2022/2023 (Atodiad 1 yr adroddiad)**.** Roedd yr adroddiad yn ymateb i ofynion deddfwriaethol ac yn sicrhau bod y Cyngor yn agored ac yn atebol o ran y modd y mae'n gwobrwyo ei staff.

Dywedodd Rheolwr y Ganolfan Gwasanaethau Adnoddau Dynol ei bod hi'n ofynnol yn statudol i'r Cyngor, o dan y Ddeddf Lleoliaeth, i baratoi Datganiad Polisi Tâl ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd, y mae angen ei gymeradwyo a'i gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2022.

Mae amseriad yr adroddiad yn fodd i sicrhau bod yr wybodaeth mor gyfredol ag sy'n bosibl. Mae hyn yn cynnwys Cytundeb Tâl y Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021, y cytunwyd arno mor ddiweddar â 28 Chwefror 2022.

Mae’r Datganiad Polisi Tâl yn darparu’r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch tâl ac, yn enwedig, penderfyniadau ynghylch tâl uwch swyddogion.

Er mai'r hyn a oedd yn ofynnol yn y Ddeddf Lleoliaeth oedd bod yr holl awdurdodau'n datblygu a chyhoeddi eu polisi ar holl dâl Prif Swyddogion, cadarnhaodd fod manylion tâl yr holl grwpiau perthnasol wedi'u cynnwys, er mwyn sicrhau tryloywder.

O ran Atodiad 1 yr adroddiad, hy y Datganiad Polisi Tâl, datganiadau Rheolwr y Ganolfan Gwasanaethau Adnoddau Dynol, tynnodd sylw'r Aelodau at Baragraff 6.6 a esboniai fod Polisi Taliad Atodol ar sail y Farchnad, fel y gwyddai'r Aelodau, wedi cael ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Cyngor ers y Datganiad Polisi Tâl diwethaf.

Roedd paragraff 8 o'r adroddiad wedyn yn rhoi gwybodaeth am Berthynoleddau Cyflogau y mae'n rhaid i'r Awdurdod eu cyhoeddi yn rhan o'r adroddiad. Ychwanegodd fod y rhain wedi cael eu diweddaru o'r flwyddyn flaenorol yn unol â chyflogau a ddiwygiwyd yn dilyn dyfarniad cyflog 2021.

Nododd Aelod fod Cynghorydd Tref wedi dweud yn gyhoeddus yn ddiweddar fod CBSPO yn talu cyfraddau cyflog gwahanol i ddynion a merched sy'n gwneud yr un swydd. Gofynnodd i Reolwr y Ganolfan Gwasanaethau Adnoddau Dynol a oedd y datganiad hwn yn gywir, a hefyd i esbonio neu ymhelaethu ar y gwahaniaeth rhwng anghyfartaledd cyflog a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Dywedodd Rheolwr y Ganolfan Gwasanaethau Adnoddau Dynol ei bod yn ofynnol i'r Cyngor adrodd bob blwyddyn ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yw'r gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog (cymedrig neu ganolrifol) dynion a merched ar draws y gweithlu.

Yn yr adroddiad diweddaraf a gyflwynwyd ar 31 Mawrth 2022, dangoswyd bwlch cyflog o 13% wrth gymharu cyflogau canolrifol.

Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yw mesuriad o'r gwahaniaeth yng nghyflog cyfartalog dynion a merched, waeth beth fo'u gwaith, ar draws y sefydliad. Mae'n wahanol i gyflog cyfartal, sy'n cymharu sut mae dynion a merched yn cael eu talu am gyflawni'r un rolau, neu rolau tebyg.

Mae'r Cyngor yn ceisio bodloni'r gofynion am gyflog cyfartal o fewn y Strwythur Cyflogau a Graddfeydd drwy werthuso unrhyw rolau newydd, neu rolau sydd wedi newid, drwy ei Gynllun Gwerthuso Swyddi. Drwy hyn bydd modd sicrhau bod unrhyw wahaniaethau o ran cyflog wedi'u cyfiawnhau'n wrthrychol.

Mae gan y Cyngor fwlch cyflog, ac mae nifer o ffactorau'n dylanwadu ar hyn, gan gynnwys cyfansoddiad a dosbarthiad y gweithlu, yn hytrach nag anghyfartaledd cyflog.

Hynny yw, mae gweithwyr sy'n cyflawni'r un rolau yn derbyn yr un cyflog, hy, am yr un swydd, felly roedd y datganiad a wnaed gan y Cynghorydd Tref, ac yr ymhelaethodd yr Aelod arno yn ei gwestiwn, yn anghywir.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad Polisi Cyflogau 2022/2023, yn Atodiad 1 yr adroddiad.

651. <u>CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL AR GYFER CYFLEUSTERAU HAMDDEN AWYR AGORED A DATBLYGIADAU TAI NEWYDD</u>

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad, er mwyn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i fabwysiadu CCA5 - Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored a Datblygiadau Tai Newydd fel Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) Pen-y-bont ar Ogwr.

I roi rhywfaint o'r cefndir, dywedodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol fod ardaloedd hamdden yn hollbwysig i'n hiechyd, ein llesiant ac i amwynder, a'u bod yn cyfannu at seilwaith gwyrdd ardaloedd. Maent yn cynnig lle i chwarae, i gymryd rhan mewn chwaraeon, i wneud gweithgareddau corfforol iach ac i ymlacio, a hynny'n aml yng nghanol byd natur.

O ganlyniad i ddatblygiad tai newydd yn y Fwrdeistref Sirol, a'r cynnydd yn y boblogaeth yn sgil hynny, dywedodd fod galw i wella cyfleusterau hamdden presennol, ac i ddarparu cyfleusterau newydd.

Cadarnhaodd yr Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol y bydd CCA5 yn arf allweddol i ateb y galw hwnnw, drwy roi cyngor ac arweiniad i ddatblygwyr ynghylch sut y gellir bodloni'r safonau sy'n ofynnol ym mholisi'r Cynllun Datblygu Lleol.

I grynhoi, mae’r CCA yn nodi:

- Y cyd-destun Polisi Cynllunio lleol a chenedlaethol ar gyfer darpariaeth hamdden awyr agored;
- Polisi ac arferion y Cyngor yn gysylltiedig â gofodau hamdden;
- Nodiadau canllaw i esbonio'r amgylchiadau, y mecanweithiau, y mathau a maint y gofod hamdden a geisir ar ddatblygiadau preswyl;
- Eglurhad o'r amgylchiadau lle gellir ceisio cyfraniadau ariannol tuag at gyfleusterau hamdden;
- Anogaeth i ddatblygwyr a darpar ymgeiswyr gynnwys yr Adran Gynllunio mewn trafodaethau cyn ymgeisio; a
- Chanllawiau ar y dull o weinyddu'r polisi.

Ar 16 Ionawr 2020 cymeradwyodd y Pwyllgor Rheoli Datblygu fersiwn drafft o’r CCA fel sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus; awdurdododd swyddogion i wneud trefniadau priodol i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus; a chytunodd i ddisgwyl am adroddiad pellach ar ganlyniad y broses ymgynghori.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos o hyd rhwng 21 Chwefror a 3 Ebrill 2020. Hysbysebwyd yr ymgynghoriad yn unol â darpariaethau paragraff 4.2 yr adroddiad.

Erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori, roedd naw sylw wedi dod i law ar ddrafft y CCA. Ceir crynodeb o'r sylwadau hyn yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Ar 3 Mawrth 2022, ystyriodd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yr holl sylwadau a chytuno ar newidiadau i'r ddogfen yn sgil y sylwadau a ddaeth i law. Cafodd y rhain eu cynnwys ar ffurf diwygiadau i'r CCA a geir yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol y byddai'r Aelodau'n sylwi o'r pwyntiau bwled ym mharagraff 4.4 yr adroddiad, fod y diwygiadau arfaethedig wedi'u cyfyngu i bwyntiau eglurhaol cymharol syml, ac ychwanegodd fod hyn yn adlewyrchu swmp y gwaith a wnaed i gwblhau drafft y CCA yn y lle cyntaf. Cydnabu fewnbwn y Maer i hyn, a oedd wedi galw am gyflwyno CCA ers sawl blwyddyn, a bu ei gyfraniad personol a phroffesiynol yn amhrisiadwy ac yn fodd i sicrhau bod gan holl Aelodau'r Fwrdeistref Sirol lais yn y broses.

Daeth y Swyddog â’i gyflwyniad i ben drwy ychwanegu bod y CCA yn ymhelaethu ar y fframwaith polisi cynllunio defnydd tir presennol sydd wedi’i gynnwys yn y CDLl, gan roi sicrwydd i’r cyhoedd a datblygwyr ynghylch disgwyliadau’r Cyngor o ran sicrhau lefel briodol o Gyfleusterau Hamdden Awyr Agored i wasanaethu datblygiadau preswyl newydd.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau am yr adroddiad, a atebwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau a Swyddogion o Adran Gynllunio'r Cyngor. Ar ôl hynny,

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor:

1 . Yn mabwysiadu CCA 5 - Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored a Datblygiadau Tai Newydd (Atodiad 2 yr adroddiad) fel Canllawiau Cynllunio Atodol i Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Pen-y-bont ar Ogwr.

2 . Yn awdurdodi'r Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i wneud mân newidiadau i'r cyflwyniad cyn cyhoeddi'r CCA ar wefan y Cyngor.

652. SIARTER CREU LLEOEDD CYMRU

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi ac yn llofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru.

Fel gwybodaeth gefndir, dywedodd y Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, mai proses ragweithiol a chydweithredol o greu a rheoli lleoedd yw Creu Lleoedd. Er y gellir ystyried yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel y prif gynigydd, mae’r agenda creu lleoedd i bob pwrpas yn mynd y tu hwnt i swyddogaethau Cynllunio a swyddogaethau cysylltiedig y Cyngor, ac yn cynnwys cysylltiadau trawsddisgyblaethol â meysydd gwasanaeth lluosog ar draws llywodraeth leol a’i phartneriaid cysylltiedig er mwyn cyfrannu at greu a rheoli lleoedd yn effeithiol.

Cafodd y Siarter Creu Lleoedd, a lansiwyd ym mis Medi 2020, ei datblygu gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhanddeiliaid sy'n cynrychioli ystod eang o fuddiannau a sefydliadau sy'n gweithio oddi mewn yr amgylchedd adeiledig a naturiol. Bwriedir i'r Siarter adlewyrchu ymrwymiad y sefydliadau hyn, yn unigol ac ar y cyd, i gefnogi datblygu lleoedd o ansawdd uchel ledled Cymru er budd cymunedau.

Aeth yn ei flaen i gadarnhau bod llofnodwyr Siarter Creu Lleoedd Cymru yn cytuno i hyrwyddo'r egwyddorion canlynol wrth gynllunio, dylunio a rheoli lleoedd newydd a lleoedd sy'n bodoli eisoes:-

- Pobl a chymuned;
- Lleoliad;
- Symudiad;
- Cymysgedd o ddefnyddiau;
- Tir y Cyhoedd a;
- Hunaniaeth

Manylwyd ar ddisgrifydd a oedd yn ymhelaethu ar bob un o'r rhain yn adroddiad y Swyddog.

Aeth y Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu yn ei flaen i ddweud y byddai'r Cyngor yn addo, fel llofnodwr y Siarter Creu Lleoedd:

- Cynnwys y gymuned leol wrth ddatblygu cynigion;
- Dewis lleoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd;
- Blaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus;
- Creu strydoedd a mannau cyhoeddus cynhwysol, diffiniedig, diogel a chroesawgar;
- Hyrwyddo cymysgedd gynaliadwy o ddefnyddiau i wneud lleoedd yn fywiog;

- Gwerthfawrogi a pharchu rhinweddau a hunaniaeth unigryw lleoedd presennol.

Ychwanegodd fod dogfen 'Dyfodol Cymru 2040' Llywodraeth Cymru yn darparu'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol ac yn cynnwys polisi penodol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r sector cyhoeddus ddangos arweiniad a chymhwyso egwyddorion creu lleoedd i gefnogi twf ac adfywiad er budd cymunedau. O dan Bolisi 2, mae'n datgan: “Rhaid i’r sector cyhoeddus arwain drwy esiampl a rhoi egwyddorion creu lleoedd ar waith er mwyn creu datblygiadau sy'n dangos esiampl. Yn arbennig, rhaid i'r sector cyhoeddus flaenoriaethu gwaith dylunio o ansawdd, arloesedd a chynaliadwyedd."

Dywedodd y Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, fod Creu Lleoedd bellach wedi'i gydnabod ymhlith swyddogaethau'r Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu yng Nghynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth Cymunedau 2021/22. Y Pwyllgor Rheoli Datblygu a'r Gwasanaeth Cynllunio sydd yn y sefyllfa orau i weithredu fel hyrwyddwyr creu lleoedd y Cyngor, er mwyn sicrhau bod datblygiadau newydd yn cydymffurfio â'r egwyddorion a nodir yn y Siarter. Ceir dyhead i sefydlu 'Uned Creu Lleoedd' o fewn y tîm, gan fanteisio ar arbenigedd sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â sicrhau adnoddau ychwanegol a threfnu hyfforddiant addas er mwyn rhoi'r mewnbwn creu lleoedd angenrheidiol i gynlluniau newydd. Byddai hyn yn cynnwys prosiectau'r Cyngor ei hun yn ogystal ag unrhyw bartner o'r sector cyhoeddus a datblygiad y sector preifat yn y dyfodol.

Yn ymarferol, gallai hyn gynnwys, ymhlith pethau eraill, y gofyniad i ddatblygwyr gael arbenigwr Creu Lleoedd yn rhan o’r gwaith cyn ymgeisio a datblygu cyfres o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol cyfredol. Bydd hyn yn galluogi Pen-y-bont ar Ogwr i fod yn Awdurdod enghreifftiol yn nhermau
creu lleoedd.

Daeth â’r adroddiad i ben, drwy ddweud bod llofnodi'r Siarter Creu Lleoedd felly'n cynnig cyfle i'r Cyngor gadarnhau ei ymrwymiad i sicrhau lleoedd o ansawdd, a chydnabod cyfraniad allweddol hynny at wella iechyd a llesiant ei gymunedau a'i drigolion ymhell i'r dyfodol. Ar gyfer hyn bydd angen ymagwedd 'un Cyngor' sydd eisoes wedi'i chefnogi mewn egwyddor gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau - y byddai'r Siarter Creu Lleoedd yn cydweddu'n briodol â nifer o gynlluniau a strategaethau'r Cyngor, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymwneud â'r economi ac, yn enwedig, y Cynllun Datblygu Lleol y byddai ganddi berthynas uniongyrchol ag ef. Byddai'r Siarter hefyd yn cefnogi mentrau cadarnhaol fel Teithio Egnïol a ffyrdd iachach o fyw.

Roedd Aelod yn cefnogi’r Siarter ac yn gobeithio y byddai’n datrys problemau fel datblygiadau newydd a oedd yn cael eu hadeiladu a'u cwblhau heb gynnwys gofynion hanfodol, er enghraifft llwybrau troed i gysylltu ag ardaloedd eraill o'r gymuned, siopau lleol ac ardaloedd chwarae i blant ac ati. Pwysleisiodd y dylai'r rhain gael eu cynnwys yn rhan o ddatblygiadau newydd yn y gwaith adeiladu cychwynnol.

Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu y byddai egwyddorion y Siarter o gymorth i sicrhau bod enghreifftiau fel yr uchod yn berthnasol yn y dyfodol ar gyfer datblygiadau newydd, ynghyd â'r ffaith y byddai Uwchgynlluniau a chytundebau cyfreithiol i gefnogi'r Siarter er mwyn atgyfnerthu hyn.

Dywedodd Aelod ei bod yn gobeithio y byddai'r Siarter Creu Lleoedd hefyd yn berthnasol i Gynghorau Tref a Chymuned.

Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu y gallai Cynghorau Tref a Chymuned lofnodi'r Siarter, ynghyd â sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus a phreswylwyr o'r diwydiant Datblygu.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi ac yn llofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru.

653. TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG 2021-22 A DATGANIAD CYFRIFON

Cyflwynodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad i hysbysu'r Cyngor ynghylch y gofyniad i Aelodau ddatgan yn ffurfiol unrhyw drafodion parti cysylltiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 drwy lenwi'r datganiad a oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad A, hyd yn oed os nad oedd dim i'w ddatgan. Roedd yn rhaid cwblhau'r datganiad o 31 Mawrth ymlaen a'i ddychwelyd erbyn dydd Gwener 8 Ebrill 2022.

Esboniodd fod paratoi'r Datganiad Cyfrifon ymhlith gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) a bod ei gynnwys wedi'i ddiffinio yn y 'Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Llywodraeth Leol yn Y Deyrnas Unedig' (y Cod) 2021-22 gan y Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

Yn ôl Cod 2021-22 "Bydd yn rhaid i Awdurdodau nodi perthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig, nodi balansau sy'n weddill rhwng yr awdurdod a'i bartïon cysylltiedig, a nodi'r amgylchiadau lle bydd datgeliadau'n ofynnol". Wedyn bydd yn rhaid datgelu unrhyw drafodion partïon cysylltiedig yn y Datganiad Cyfrifon.

Cyhoeddodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid - nad yw'r gofyniad i ddatgan trafodion partïon cysylltiedig yn ofyniad newydd.

Pwrpas yr adroddiad felly oedd hysbysu'r Aelodau ynghylch y gofyniad i gwblhau'r datganiad a oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad A gan gyfeirio i'r canllawiau a oedd ynghlwm yn Atodiad B erbyn dydd Gwener 8 Ebrill 2022. Mae'n hanfodol bod y ffurflen hon yn cael ei llenwi i adlewyrchu'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2022, a'i bod yn trafod y flwyddyn ariannol lawn, neu'r cyfnod yr oedd yr unigolyn wedi bod yn Aelod o'r Cyngor. Dylai'r Aelodau nodi y bydd copi o'r datganiad hwn yn cael ei anfon drwy e-bost ar wahân i'w cyfeiriad e-bost Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'w lenwi a'i ddychwelyd.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn nodi'r gofyniad i'r Aelodau:

- Ddatgan yn ffurfiol unrhyw drafodion parti cysylltiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22;
- Cwblhau a dyddio'r ffurflen ar 31 Mawrth ar y cynharaf 2022;
- Cyflwyno'r ffurflen erbyn dydd Gwener 8 Ebrill 2022

654. CYNLLUN DEISEBAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad a ofynnai i'r Cyngor gymeradwyo a mabwysiadu'r Cynllun Deisebau a oedd ynghlwm yn Atodiad 1.

Derbyniodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021. Mae'r Ddeddf honno'n gosod dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol gan gynnwys, o dan Adran 42, y ddyletswydd i greu Cynllun Deisebau gan gynnwys darparu cyfleuster ar gyfer deisebau electronig (e-ddeisebau). . Daw'r ddarpariaeth hon i rym ym mis Mai 2022.

O dan Ddeddf 2021, eglurodd fod yn rhaid i'r Cyngor gyhoeddi Cynllun i esbonio sut mae'n bwriadu ymdrin â deisebau ac ymateb iddynt.

Eglurodd y Swyddog Monitro fod deisebu yn un ffordd y gall unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau ei defnyddio i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, drwy dynnu sylw'r Cyngor at faterion sy'n destun pryder i'r cyhoedd a rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ystyried yr angen am newid o fewn y Fwrdeistref Sirol. Cydnabyddir y gall deisebau esgor ar ganlyniadau cadarnhaol sy'n arwain at newid neu'n goleuo trafodaethau.

Roedd y Cynllun a oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 (i'r adroddiad), yn dangos hyn drwy nodi y byddai deisebau a fyddai'n cael eu derbyn gan unrhyw un a oedd yn byw, yn gweithio neu'n astudio yn y Fwrdeistref, waeth beth fo nifer y llofnodion, yn derbyn ymateb ar yr amod y cedwir at y canllawiau a nodir yn y Cynllun. Pwrpas y Cynllun hwn yw sefydlu proses glir ar gyfer ymdrin â deisebau a gyflwynir i'r Cyngor yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'r Cynllun yn cynnwys darpariaeth i sicrhau, os ceir mwy na 750 o lofnodion ar ddeiseb, y bydd y ddeiseb yn cael ei hystyried mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn. Bydd trefnydd y ddeiseb yn cael gwybod mewn ysgrifen pryd y cynhelir y drafodaeth, gan roi digon o rybudd iddo allu bod yn bresennol.

Bydd y Cyngor yn cynnal cyfleuster e-ddeiseb ar ei wefan, a ddarperir gan Mod.gov, sef y system rheoli pwyllgorau awdurdodau lleol a ddefnyddir fwyaf. Mae'r Cynllun yn nodi bod yn rhaid i e-ddeisebau ddilyn yr un canllawiau â deisebau papur. Rhaid i drefnydd e-ddeiseb roi ei enw, cyfeiriad, cod post dilys a chyfeiriad e-bost. Ychwanegodd y Swyddog Monitro fod angen i unrhyw un sy'n cefnogi'r ddeiseb gyflwyno'r un wybodaeth.

I gloi ei hadroddiad, dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'n rhaid i'r Cyngor adolygu'r Cynllun o dro i dro, yn unol â Deddf 2021, ac os oedd ystyried hynny'n briodol, ei ddiwygio. Os bydd y Cyngor yn diwygio'r Cynllun neu'n cyflwyno Cynllun newydd yn ei le, bydd y Cynllun newydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 145 yr adroddiad a gofynnodd pam bod angen cyfeiriad y deisebydd ar e-ddeisebau yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod rhai agweddau ar gynnwys e-ddeisebau'n ddarostyngedig i ofynion deddfwriaethol, ond y gellid adolygu cynnwys e-ddeisebau yn y dyfodol a'i addasu fel bo'n briodol pe bai'r Aelodau'n teimlo bod angen gwneud hynny.

Roedd yr Aelod yn ymwybodol y gallai e-ddeisebau gael eu cyflwyno drwy system a elwir yn Change.Org, a gofynnodd a allai'r Cyngor dderbyn y dull hwn hefyd yn hytrach na system  cronfa ddata Modern.Gov y Cyngor ei hun.

Nid oedd y Swyddog Monitro yn meddwl bod modd integreiddio'r ddwy system, ond dywedodd y byddai'n holi adrannau TGCh a Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor, er mwyn canfod a fyddai hyn yn bosibl, ac yn rhoi'r ateb i'r Aelod y tu allan i'r cyfarfod.

Gofynnodd Aelod, os oedd fersiwn bapur a fersiwn electronig o'r un ddeiseb, a ellid cyflwyno'r rhain gyda'i gilydd ar ffurf un ddeiseb.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y gellid darparu ar gyfer hynny.

Pe na bai deisebydd yn nodi ei gyfeiriad am resymau'n gysylltiedig â phreifatrwydd, gofynnodd Aelod a fyddai'n gallu llofnodi e-ddeiseb.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod rhywfaint o ddisgresiwn o ran Polisi yn hyn o beth, ond mai'r prif reswm dros fynnu bod llofnodwr yn darparu cyfeiriad oedd sicrhau ei fod yn llofnodwr dilys yn hytrach na llofnodwr ffug 'wedi'i ychwanegu'.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu'r Cynllun Deisebau a oedd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad.

655. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2022/23

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, a hysbysai'r Cyngor am Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ("y Panel") mewn perthynas â lefel ac ystod y gydnabyddiaeth ariannol y byddai'n rhaid i'r Awdurdod ei darparu i'w aelodau etholedig ar gyfer blwyddyn 2022/23 y Cyngor.

I esbonio rhywfaint o'r cefndir, cadarnhaodd fod Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 yn cynnwys darpariaeth i sefydlu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Dyma oedd pedwerydd adroddiad blynyddol ar ddeg y Panel, a'r unfed adroddiad ar ddeg i gael ei gyhoeddi'n unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad). Roedd y Mesur yn ymestyn cyfrifoldebau'r Panel a'i bwerau o dan Adran 142 i benderfynu (rhagnodi) taliadau i aelodau awdurdodau perthnasol.

Dangoswyd Penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2022/23 yn Atodiad 1 yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 61 ymlaen). Mae adran 153 o'r Mesur yn rhoi pŵer i'r Panel ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol gydymffurfio â'r gofynion a osodir arno gan yr Adroddiad Blynyddol.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod Adroddiad Blynyddol y Panel 2022/23 yn cynnig rhai newidiadau i'r gydnabyddiaeth bresennol a ragnodir ar gyfer aelodau etholedig ar lefel Prif Gyngor (Bwrdeistref Sirol) ac ar lefel Cynghorau Tref a Chymuned.

Roedd paragraffau yn yr adroddiad, o 4.2 i 4.17 yn rhoi grynodeb o brif elfennau'r Adroddiad cyffredinol, ac ymhelaethodd y Swyddog Monitro rywfaint ar yr wybodaeth hon, er budd yr Aelodau.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Adroddiad Blynyddol y Panel ddod i rym o 1 Ebrill. Yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, mae hyn yn cyd-fynd â threfniadau ariannol a gweinyddol yr holl awdurdodau. Fodd bynnag, pan gaiff cynghorau newydd eu hethol, dylai rhai o benderfyniadau'r Panel fod yn weithredol ar gyfer tymor newydd y Cyngor. Ar 9 Mai 2022, bydd trefniadau newydd yn dod i rym ar gyfer y Cyngor, yn dilyn etholiadau llywodraeth leol. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn felly'n cynnwys dau ddyddiad gwahanol pan ddaw'r penderfyniadau i rym, fel y nodir isod:

- Am y cyfnod o 1 Ebrill 2022 hyd 8 Mai 2022, bydd yr holl Benderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2021-22 yn parhau i fod yn berthnasol mewn perthynas â Phrif Gynghorau a Chynghorau Tref a Chymuned;
- O 9 Mai 2022, (blwyddyn newydd y Cyngor) bydd y Penderfyniadau a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol 2022/23 hwn yn yr adrannau ar Brif Gynghorau ac ar Gynghorau Tref a Chymuned yn berthnasol.

Gofynnodd Aelod pryd y byddai cyfle'n codi i drafod pa gyflogau uwch a allai fod yn berthnasol i'r amrywiaeth o swyddi gwleidyddol o fewn yr Awdurdod yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol a oedd ar y gorwel.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai'r drafodaeth hon yn digwydd yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ym mis Mai.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cyngor yn nodi Adroddiad Blynyddol 2022/23 ac yn cymeradwyo:

1 . Mabwysiadu Penderfyniadau perthnasol y Panel sydd yn yr Adroddiad Blynyddol (ynghlwm yn Atodiad 1);

2 . Y swyddi hynny (a ddangosir yn fersiwn ddiwygiedig Atodlen Tâl Cydnabyddiaeth yr Aelodau yn Atodlen 1 o Atodiad 2) a fydd yn derbyn cyflog uwch / dinesig;

3. Fersiwn ddiwygiedig Atodlen Tâl Cydnabyddiaeth yr Aelodau (Atodiad 2) a bod yr atodlen honno'n dod i rym o 9 Mai 2022;

4. Diweddaru Rhestr Tâl Cydnabyddiaeth yr Aelodau drwy gynnwys unrhyw newidiadau i swyddi cyflog uwch / dinesig a wneir gan y Cyngor yn ystod blwyddyn 2022/23 y Cyngor.

656. ADRODDIADAU GWYBODAETH I'W NODI

Adroddodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol (a Swyddog Monitro), ar yr Adroddiadau Gwybodaeth a oedd wedi cael eu cyhoeddi ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r dogfennau a nodwyd yn yr adroddiad.

657. DERBYN Y CWESTIWN CANLYNOL GAN Y CYNGHORYDD ALTAF HUSSAIN I'R DIRPRWY ARWEINYDD/AELOD CABINET - CYMUNEDAU:

**Cwestiwn**

Cynghorau yw'r gwasanaeth cymorth cyntaf y mae busnesau hunangyflogedig yn troi atynt er mwyn ailadeiladu ar ôl y pandemig. I lawer o bobl hunangyflogedig, mae'r pandemig wedi bod yn argyfwng iechyd yn ogystal ag argyfwng incwm. Ceir llawer o weithwyr llawrydd yng Nghymru na chawsant gymorth ariannol oddi wrth y Llywodraeth, ac mewn ymchwil gan IPSE canfuwyd bod un o bob pedwar wedi gwario eu holl gynilion.

Sut mae Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn buddsoddi ym musnesau lleiaf ein hardaloedd, a pha gymorth sydd ar gael i weithwyr llawrydd?

**Ymateb**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig amrywiaeth o gymorth busnes, ac wedi ymroi i gefnogi twf busnes. Mae gan swyddogion wybodaeth a phrofiad i helpu'r rhai sy'n cynllunio i sefydlu neu ehangu busnes yn sir Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys sefydliadau o bob maint fel prosiectau bach sydd newydd ddechrau hyd at

gwmnïau mawr amlwladol. Bydd swyddogion yn trosi cynifer o ymholiadau ag sy'n bosibl yn fusnesau llwyddiannus ac yn parhau i helpu'r busnesau i dyfu a datblygu.

Gall y tîm Menter roi cyngor a chymorth busnes parhaus, gan gynnwys:

- Cymorth yn gysylltiedig ag eiddo newydd
- Cyfleoedd i rwydweithio drwy Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr
- Recriwtio
- Sgiliau
- Hyfforddiant

Mae Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda phobl gyflogedig a di-waith ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a gall gynnig cymorth rhad ac am ddim yn gysylltiedig â mentora a hyfforddiant. Gan gynnwys pobl mewn swydd sydd am wella'u sefyllfa gyflogaeth, gallant gynnig cymorth i gynyddu oriau gwaith, symud i swydd wahanol, symud ymlaen i swydd well, ac ennill lefel uwch o incwm.  Ar ôl i fusnes fasnachu gall y prosiect roi cymorth yn gysylltiedig â recriwtio, yn ogystal â sgiliau i'r perchennog a'r staff.

Mae Ysgolion Busnes Rebel (Ysgol Fusnes Dros Dro) yn cynnwys 5 sesiwn diwrnod llawn sy'n helpu pobl i mewn i hunangyflogaeth a'u haddysgu ynghylch sut i sefydlu busnes yn rhad ac am ddim. Cynhelir y rhain yn flynyddol fel arfer. Mae Ysgolion Busnes Rebel hefyd yn datblygu cwrs 1 diwrnod i'w gynnal sawl gwaith y flwyddyn. Mae'r dull hwn yn ddeniadol iawn ac yn rhoi hyder i bobl gymryd y camau cyntaf.

Mae Cronfa Dyfodol Economaidd y Cyngor yn cefnogi busnesau newydd ac addasiadau i eiddo busnes sy'n helpu i gefnogi'r economi yn ystod pandemig y coronafeirws a thu hwnt.

Maent yn cynnwys:

Mae cyllid Cychwyn Busnes Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu grantiau rhwng £250 a £4,000 i fentrau a busnesau newydd o fewn y 3 blynedd cyntaf o fasnachu. I ddechrau bydd £150,000 ar gael yn 2021/2022.

Cronfa Adfer Gwelliannau Awyr Agored Covid-19 sy’n darparu grantiau o hyd at £10,000 i addasu eiddo busnes er mwyn ymateb i gyfyngiadau'n deillio o bandemig y coronafeirws a datblygu cydnerthedd i'r dyfodol. I ddechrau, bydd £350,000 ar gael ar gyfer y Gronfa hon yn 2021/2022.

Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig cynllun grant hyblyg a ddarperir drwy bartneriaeth rhwng UK Steel Enterprise a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae’n darparu cymorth ariannol i ficrofusnesau newydd neu bresennol sydd wedi’u lleoli, neu sy’n bwriadu eu lleoli eu hunain, ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Gall y grant ddarparu hyd at 50% o gostau prosiect cymwys. Y grant lleiaf yw £250 a'r grant mwyaf sydd ar gael yw £4,000 felly uchafswm cost y prosiect yw £8000.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Altaf Hussain**

Faint o weithwyr llawrydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd wedi gwneud cais am grant ariannol hyd yma? Faint sydd wedi derbyn grant o £250, pa fusnes a ddechreuwyd gyda'r swm hwn, ac a yw'r grant bellach ar gau i ymgeiswyr newydd?

**Ymateb**

Cytunwyd y byddai ateb yn cael ei roi i'r cwestiwn y tu allan i'r cyfarfod.

658. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:00